**Dyddiad:** **11 Mehefin 2003**
**Amser:** **9.00 – 12.30**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON

### Eisteddfod yr Urdd

1. Cynhaliodd Urdd Gobaith Cymru Eisteddfod lwyddiannus iawn ym Mharc Margam rhwng 26-31 Mai, gyda thros 100,000 o bobl yn ymweld â hi. Pleser digymysg i finnau oedd cael bod yno am ddeuddydd a chael blas ar y dathliad rhyfeddol hwn o ddiwylliant Cymraeg. Cefais gyfle yn yr Eisteddfod i gwrdd â chynrychiolwyr nifer o gyrff sy'n derbyn nawdd Llywodraeth y Cynulliad. Bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhoi £520,000 i'r Urdd yn ystod blwyddyn ariannol 2003-04 a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi £275,000 i'r Urdd i adeiladu canolfan dderbyn newydd yng Ngwersyll Glan-llyn, i'w chwblhau erbyn diwedd yr haf.

### Bwrdd yr Iaith Gymraeg

2. Ar 10 Mehefin, cefais gyfarfod â Rhodri Williams, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bu'r cyfarfod yn gyfle i drafod y materion diweddaraf ym maes y Gymraeg a mynd â'r gwaith a ddisgrifir yn Iaith Pawb yn ei flaen.

### Sharing Treasures - Cyfoeth Cymru Gyfan

3. Mae'r rhaglen bartneriaeth "Sharing Treasures - Cyfoeth Cymru Gyfan" yn mynd rhagddi'n dda. Mae'n brosiect mawr a'i nod yw gwella'r cyfleusterau mewn detholiad o amgueddfeydd lleol yng Nghymru er mwyn iddynt allu arddangos eitemau prin a gwerthfawr o'r casgliadau cenedlaethol. Noddir y rhaglen ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Cynulliad trwy Gyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru ond trosglwyddir yr awenau i CyMAL ym mis Ebrill 2004.

4. Cynhaliwyd yr arddangosfa gyntaf ym mis Mawrth 2003 yn Oriel Ynys Môn. Caiff y nesaf ei chynnal yn Amgueddfa Wrecsam ddiwedd Gorffennaf, sef casgliad o luniadau botanegol gan y Dr Harry Drinkwater. Mae'r lluniadau ar hyn o bryd yn yr Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays. Bydd y drydedd arddangosfa'n agor yn Amgueddfa Brycheiniog yn yr hydref. Dewisir dau leoliad arall mewn rhannau eraill o Gymru yn ddiweddarach eleni. Dyma enghraifft ymarferol o bartneriaeth yn gweithio i sicrhau bod pobl o bob cwr o'r wlad yn cael gweld ein casgliadau cenedlaethol.

### Cynllun Treialu Nofio am Ddim

5. Mae'r arwyddion cyntaf yn awgrymu bod y cynllun treialu nofio am ddim, a noddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, wedi taro deuddeg. Daw hyd a lled y

llwyddiant hwnnw i'r amlwg wedi i'r tîm gwerthuso, gyda chynrychiolwyr Uned Ymchwil a Gwerthuso Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Chwaraeon Cymru ac Uned Ddata Llywodraeth Leol yn aelodau ohono, gynnal adolygiad o'r cynllun. Cawn wybod faint o bobl fanteisiodd arno ac asesiad ansoddol ym mhob awdurdod gymerodd ran. Mae'r gwaith yn dal i fynd yn ei flaen a chynhelir adolygiad llawn o'r peilot haf pan fydd holl Awdurdodau Lleol Cymru gobeithio yn cymryd rhan ynddo.

**Gêmau Athletau Rhyngwladol y Clwb Carafanio**

6. Ddydd Mercher 28 Mai, anerchais gyfarfod lansio swyddogol "Gêmau Rhyngwladol Caerdydd y Clwb Carafanio" yn y Neuadd yn y Cynulliad. Y Clwb Carafanio yw prif noddwyr y gêmau fydd yn cael eu cynnal ym mis Gorffennaf yn Stadiwm Lecwydd yng Nghaerdydd a bydd athletwyr o Jamaica, Sri Lanka, Trinidad, Gwlad Groeg, Rwsia a Kenya yn cystadlu.

**Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd**

7. Ddydd Sul 25 Mai, ymwelais â Stadiwm y Mileniwm i wylio gêm ail-gyfle Dinas Caerdydd yn erbyn Queen's Park Rangers. Roedd yn achlysur mawr yn hanes y clwb a'r ddinas, a chyda Wrecsam yn cael eu dyrchafu a Dinas Abertawe yn goroesi, yn ogystal â llwyddiant ein tîm cenedlaethol eleni, bu'n dymor llwyddiannus iawn i bêl-droed Cymru gan osod sylfeini cadarn i'r dyfodol.

**Cinio Uwch-Gynghrair Cymru yn Aberystwyth, ddydd Sadwrn 7 Mehefin**

8. Rwyf wedi derbyn gwahoddiad gan Uwch-Gynghrair Cymru i fynd i'w cinio diwedd tymor yn Aberystwyth ar 7 Mehefin. Bydd yn gyfle da i drafod yn anffurfiol llwyddiannau niferus pêl-droed yng Nghymru a'r sialensau sy'n ei wynebu. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi addo £2m dros y tair blynedd nesaf i ddatblygu pêl-droed yng Nghymru. Y flaenoriaeth nawr yw cadw'r llygad ar y bêl.

**Ymweliad â Phlas y Brenin**

9. Ar 23 Mai, ymwelais â Phlas y Brenin yn y Gogledd a chyfarfod â Chadeirydd Fforwm Ymwybyddiaeth o Weithgareddau Awyr Agored Cymru, Iain Peter. Buom yn trafod sut orau i roi argymhellion adroddiad y Fforwm ar waith, yn arbennig darparu rhagolygon tywydd arbenigol.

**Thomas Jones**

10. Pleser mawr imi oedd cael bod yn gysylltiedig ag agoriad arddangosfa Thomas Jones "*Ail-ddarganfod Artist"* yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ym Mharc Cathays ar 23 Mai. Yr arddangosfa ardderchog hon yw'r gyntaf ers dros 30 o flynyddoedd i ganolbwyntio ar ei yrfa gyfan. Gwelir tros 160 o'r paentiadau a lluniadau a waed gan yr artist hwn o Gymro yn ystod ei deithiau yng Nghymru a'r Eidal yn y 18$^{fed}$ ganrif.

**Gwyl y Gelli**

11. Ar 26 Mai, es i Wyl y Gelli lle cyflwynodd y Prif Weinidog wobrau Llyfr y Flwyddyn i Charlotte Williams am *Sugar and Slate* ac i Angharad Price am ei llyfr *O! Tyn y Gorchudd.* Cefais gwrdd â nifer o drefnwyr yr wyl. Denwyd cyfoeth o ddoniau llenyddol i'r wyl a chafodd gryn gyhoeddusrwydd da a brwd. Yn ôl yr amcangyfrifon cyntaf, ymwelodd rhyw 75,000 o bobl â'r Gelli dros yr wythnos.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

12. Ar 19 Mai, pleser imi oedd cael traddodi'r anerchiad agoriadol yng nghynhadledd genedlaethol gyntaf Cyngor Celfyddydau Cymru ers 1974. Fe'i cynhaliwyd yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe a pharodd am ddeuddydd; daeth cynrychiolwyr o holl feysydd y celfyddydau yng Nghymru ynghyd. Y prif destunau siarad oedd datblygiad *Cefnogi Creadigrwydd* (strategaeth 5-mlynedd Cyngor y Celfyddydau) a gweithio mewn partneriaeth. Cynhaliwyd sesiynau trafod i bobl gael rhannu profiadau, gweledigaeth a syniadau. Rwy'n deall y cafwyd derbyniad da i'r gynhadledd.

13. Mae *Cefnogi Creadigrwydd* yn ddogfen bwysig ac mae'n adlewyrchu'n union y blaenoriaethau a ddisgrifir yn strategaeth ddiwylliant Llywodraeth y Cynulliad "Creative Future: Cymru Greadigol". Cyfle i ymgynghori oedd y gynhadledd mewn gwirionedd. Cafodd llawer o'r pwyntiau gweithredu yn y strategaeth 5-mlynedd i ddatblygu'r celfyddydau eu tynnu'n ddarnau a'u harchwilio dan chwyddwydr yn y sesiynau trafod. Cymerodd siaradwyr blaenllaw o Gymru a thu hwnt ran yn y sesiynau holi ac ateb a chafodd y cynrychiolwyr gyfle i groesholi Judith Isherwood (Canolfan Mileniwm Cymru), y beirniad a'r cyfarwyddwr drama Michael Bogdanov, artistiaid a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, a'u tebyg.

**Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008**

14. Lerpwl gafodd ei dewis fel Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008 ar 4 Mehefin. Rwyf finnau, fel pawb arall, yn siomedig na lwyddodd Caerdydd i gipio'r wobr ond hoffwn ganmol tîm Caerdydd am weithio mor ardderchog gyda phartneriaid ledled Cymru i fynd ar y rhestr fer ac ennill y teitl hyglod 'Canolfan Ddiwylliant'. Mae Caerdydd a Chymru wedi dod yn fuddugoliaethus o'r frwydr. Rwyf wedi ysgrifennu at Mike Storey yn Lerpwl i'w llongyfarch ar eu llwyddiant. Cafodd Eisteddfod Genedlaethol ei chynnal yno ym 1929 ac rwy'n disgwyl ymlaen at ymchwilio i'r posibiliadau o ddod â manteision eu llwyddiant i'r gogledd ddwyrain.

**Pencampwriaeth Golff Agored Cymru**

15. Y Wales Open yw cymal cyntaf "Haf o Golff Gwych" ar draws Cymru a lansiais ar 28 Mai yn y Celtic Manor. Dyma fydd y rhaglen ddigwyddiadau:

- Gorffennaf - Wales Seniors Open Cwpan Ryder yn Harlech
- Awst - Pencampwriaeth Ewrop Merched WPGA Cymru ym Mhorthcawl
- Hydref - Taith Her 2010 Cymru Cwpan Ryder yn Llaneurgain

16. Bydd Datblygu Golff Cymru a'u noddwr newydd Phil Price, ym mhob digwyddiad i annog mwy o bobl i chwarae'r gamp. Cefais weld â'm llygaid fy hun y gwaith datblygu sy'n cael ei wneud fel rhan o brosiect Cwpan Ryder ac sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth y Cynulliad. Gwelwyd y Wales Open ar sgriniau teledu'r byd ac yn fyw ar y Golf Channel yn America a bu'n hysbyseb wych i Gymru a golff Cymru.

**Clwyd Theatr Cymru**

17. Ymwelais â'r theatr ar 30 Mai i weld Blithe Spirit a chefais gyfarfod anffurfiol â Terry Hands. Byddaf yn ymweld yn ffurfiol â'r theatr yn yr haf.

**Alun Pugh AC**

**Y Gweinidog Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

Enw cyswllt :- Gareth Thomas, CWLS, ffôn: est 1447.